Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 drafft

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Gorchymyn drafft uchod yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2006.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r materion a ganlyn:

- Cynnwys mewn canllawiau yr agweddau penodol hynny ar y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yr oedd rhai ymgyngoreion wedi nodi nad oeddynt wedi eu cynnwys.
- Integreiddio elfennau o gynllunio trafnidiaeth leol i Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, er mwyn ystyried buddiannau dinasyddion lleol.

Ymatebodd y Gweinidog drwy wneud y pwyntiau a ganlyn:

- Byddai'r pwyntiau a nododd yr ymgyngoreion eu bod wedi'u hepgor o'r Gorchymyn yn cael eu trafod mewn canllawiau.
- Byddai'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn pwyso a mesur sut y gellid mynd i'r afael ag integreiddio elfennau o gynllunio trafnidiaeth leol i'r Cynlluniau Trafnidiaeth Leol mewn canllawiau, gan ymgynghori â'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r Gorchymyn fel y'i drafftiwyd.

Ann Jones AC
Cadeirydd